

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.6.1 Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth i wirfoddolwyr



Beth mae monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei olygu?

Mae monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn golygu casglu data sensitif ynglŷn â chefnidir gwirfoddolwyr. Rhaid ei gofnodi, ei gadw, ei ddefnyddio a'i ddiweddarau'n unol â'r gofynion a osodir yn y [Ddeddf Diogelu Data](#). Gellid casglu gwybodaeth, er enghraifft, ynglŷn â hil, rhywedd, crefydd, oed, anabledd, rhywioldeb neu iaith.

Pam mae angen i mi fonitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth?

Gall monitro'r data hwn helpu mudiad i weld a yw amrywiaeth ei boblogaeth o wirfoddolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned maent yn gweithio ynddi.

Gall helpu i ddangos a oes yna unrhyw grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn eich poblogaeth o wirfoddolwyr fel y gallwch ganolbwyntio ar y rhain wrth recriwtio neu addasu rolau gwirfoddol er mwyn annog gwahanol fathau o wirfoddolwyr i ymuno.

Gall hefyd fod yn un o ofynion ceisiadau am gyllid i adrodd ar eich data cydraddoldeb ac amrywiaeth presennol ar gyfer gwirfoddolwyr.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer gwirfoddolwyr, ond fe'i hystyrir yn arfer da gan ei fod yn dangos ymrwymiad i roi cyfle cyfartal i bob gwirfoddolwr.

Er mwyn sicrhau'r cydweithrediad llawnaf posib ymysg gwirfoddolwr wrth ddarparu data Cyfle Cyfartal, mae angen i chi ei gwneud yn glir iawn pam mae angen y wybodaeth hon arnoch, beth fyddwch yn ei wneud â hi a'r ffordd y bydd o gymorth i'ch mudiad.

Beth ddylwn i fod yn ei fonitro?

Gall hyn amrywio gan ddibynnu ar faint y prosiect, ei amcanion a'r rhesymau rydych yn monitro. Nid oes angen casglu data ar yr holl ['nodweddion gwarchoddedig'](#); meddyliwch am eich anghenion a'r hyn y byddwch yn ei wneud gyda'r data. Yn gyffredinol, os na fyddwch yn defnyddio'r data yna peidiwch â'i gasglu!

Mae arweiniad pellach ar hyn ar gael [yma](#).

Sut wyf yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth?

Mae yna sawl ffordd wahanol o wneud hyn. Rhestrir rhai enghreifftiau isod, gan grynhoi cyfyngiadau a manteision pob un. Efallai y bydd rhai'n gweddu'n well i'ch prosiect neu'ch mudiad nag eraill:

Casglu a chofnodi gwybodaeth yn ddiennw wrth recriwtio – dim enwau na chyfeiriadau wedi'u cysylltu â'r wybodaeth

Manteision	Cyfyngiadau
Hollol anhysbys, yn gwarchod gwybodaeth gwirfoddolwyr	Ni allwch olrhain newidiadau yn y data wrth i'ch poblogaeth o wirfoddolwyr newid (h.y. pan fo gwirfoddolwr yn gadael ni allwch ganfod ei ddata er mwyn ei ddileu)
Rhai gwirfoddolwyr yn fwy tebygol o roi gwybodaeth os gallant wneud hynny'n ddiennw	Wrth i'r prosiect ddatblygu dros amser bydd y data'n llai manwl gywir ar gyfer eich poblogaeth bresennol o wirfoddolwyr
Gallwch adrodd yn hawdd ar yr holl ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth gwirfoddolwyr sydd wedi'i gasglu erioed	Ni allwch echdynnu ciplun o ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eich poblogaeth bresennol o wirfoddolwyr

Casglu gwybodaeth gyda manylion gwirfoddolwyr wrth recriwtio, ond ei chadw ar wahân gyda dynodwr diennw

Cadw data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar daenlen neu gronfa ddata gyda chod dynodwr diennw, a chadw'r cod a manylion gwirfoddolwyr ar wahân. Pan fo gwirfoddolwyr yn gadael gallwch ganfod eu cod a dileu eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth o'ch cronfa ddata.

Manteision	Cyfyngiadau
Gallwch gadw gwybodaeth yn ddiennw ac yn ddiogel	Proses gymhleth – gan gynnwys cam gweinyddol cyfryngol i neilltuo codau a chadw'r rhestr o godau sydd wedi'u neilltuo i enwau yn ddiogel
Gallwch ddileu gwybodaeth pan fo gwirfoddolwr yn gadael i sicrhau bod eich data'n cynrychioli'ch poblogaeth o wirfoddolwyr yn gywir	Mae'n dibynnu ar bobl i gofio dileu data am 'hen' wirfoddolwyr gan ddefnyddio'r cod
Gallwch echdynnu ciplun o ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eich poblogaeth bresennol o wirfoddolwyr	

Casglu data yn flynyddol mewn arolwg dienw

Casglu data cydraddoldeb ac amrywiaeth gwirfoddolwyr gydag arolwg dienw blynyddol

Manteision	Cyfyngiadau
Mae'r holl ddata'n ddiennw ac yn dangos ciplun o sampl gwirfoddolwyr ar adeg yr arolwg	Dim ond yn dangos data ar gyfer sampl o'ch poblogaeth o wirfoddolwyr (h.y. y rheini sy'n ymateb), nid y boblogaeth gyfan
Hawdd casglu'r data a dim pryderon am gadw gwybodaeth heb ei defnyddio	Gall fod yn anodd annog gwirfoddolwyr i ateb yr arolwg
Cyfle i gofnodi data arall ynglŷn â gwirfoddolwyr, ac adrodd arno, i helpu i wella rhaglen ee gwybodaeth ynglŷn â 'bodlonrwydd cwsmer' neu adborth arall gan wirfoddolwyr	

Gwybodaeth a ddiweddarir gan y gwirfoddolwyr eu hunain

Mae rhai meddalwedd arlein yn eich galluogi i roi i'ch gwirfoddolwyr fynediad arlein diogel at y gronfa ddata fel y gallant ddiweddarau'r wybodaeth eu hunain.

Manteision	Cyfyngiadau
Mae'n ddiennw, gan fod gwirfoddolwyr yn cofnodi'r data eu hunain	Gall fod yn ddibynnol ar wirfoddolwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu gwybodaeth – onid yw cofrestru â'r gronfa ddata yn ofynnol i wirfoddolwyr am ddibenion eraill
Gellir gwneud blychau'n orfodol er mwyn cael cynifer o ymatebion â phosib (DS dylid cynnwys opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud' ym mhob achos)	Nid yw bob amser yn glir pwy sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r system pan fo rhywun yn gadael
Hunanreoleiddio, dim angen i staff ddal ati i ddiweddarau gwybodaeth	

Ble wyf yn cofnodi'r wybodaeth?

Mae yna ddewisiadau amrywiol ar gael a all fod yn addas ar gyfer hyn:

- Cronfa ddata benodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr (e.e. V-Base)
- Taenlen Excel bwrpasol
- Cronfa ddata benodol ar gyfer codi arian (e.e. The Raiser's Edge)
- Cronfa ddata Access
- Offer arlein

Y pethau pwysicaf i'w hystyried yw'r ffordd y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth unwaith mae wedi'i chasglu, beth fydd yn gweithio i'ch mudiad, a beth sy'n ofynnol ym mholisi diogelu data'ch mudiad, o ran cadw data.

Beth yw'r ystyriaethau o ran diogelu data?

- Bydd gan fudiadau unigol eu polisi diogelu data eu hunain, a dylid casglu a chadw unrhyw ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol ag ef
- Mae'n wybodaeth gyfrinachol, ac felly ni ddylai fod ar gael nac yn hygyrch i'r cyhoedd. Yn ddelfrydol ni ddylai fod ar gael ond i'r rheini sydd ei hangen ar gyfer eu swydd
- Yr arfer gorau yw ei gwneud yn ofynnol i staff a/neu wirfoddolwyr a fydd â mynediad at y wybodaeth hon gytuno i bolisi cyfrinachedd
- Dylai yna fod opsiwn 'optio allan' neu 'gwell gennyf beidio â dweud' ar gael ar y ffurflen
- Rhaid i chi ei gwneud yn glir i wirfoddolwyr pam rydych yn casglu'r wybodaeth hon
- Mae'n anfoesegol casglu data os na fyddwch yn ei ddefnyddio

Beth wyf yn ei wneud gyda data a gesglir?

Mae gan y data hwn sawl defnydd, gan gynnwys:

- Adroddiadau blynyddol
- Amlygu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn eu targedu wrth recriwtio gwirfoddolwyr yn y dyfodol (gallech gymharu'ch data â data cydraddoldeb ac amrywiaeth y boblogaeth leol neu boblogaeth berthnasol)
- Yn aml mae'n un o ofynion ceisiadau am grant i gasglu a chyflwyno'r data hwn

Nid yw ein mudiad yn gweithio gyda phawb, felly, a oes angen i ni fonitro amrywiaeth?

Hyd yn oed os ydych yn gweithio gydag un rhan o'r boblogaeth yn unig, megis fyfyrwyr, neu bobl y mae cyflwr iechyd yn effeithio arnynt, efallai'r hoffech anelu beth bynnag at yr amrywiaeth ehangaf o wirfoddolwyr sy'n gyfaddas i'ch cenhadaeth. Os felly, bydd angen i chi fonitro hyn.

Gall fod yn fwy priodol cymharu amrywiaeth eich gwirfoddolwyr â phoblogaeth darged berthnasol (megis y boblogaeth o fyfyrwyr, neu boblogaeth y rheini y mae cyflwr iechyd penodol yn effeithio arnynt), yn hytrach na data ar gyfer y gymuned leol yn ei chyfanrwydd.

Dim ond nifer fach o wirfoddolwyr sydd gennym, sut y gallwn gasglu data'n ddienw?

Gall ymdrin â data Cyfle Cyfartal ar gyfer nifer fach o wirfoddolwyr fod yn her oherwydd y risg o allu adnabod unigolion mewn unrhyw adroddiad neu ddadansoddiad o'r data.

Dyma dri awgrym posib i oresgyn hyn:

- Casglu data dros sawl blwyddyn er mwyn cynyddu'r cyfanswm. Gellir wedyn ei ddadansoddi ar gyfer gwirfoddolwyr dros gyfnod o 5 neu 10 mlynedd er enghraifft, ar sail dreigl
- Cyfuno data gwirfoddolwyr â data staff i gynyddu'r cyfanswm ac adrodd ar y data gyda'i gilydd
- Cynnal dadansoddiad syml yn unig, drwy sylwi, disgrifio a chanfod ble mae yna ddiffyg cynrychiolaeth. Efallai, er enghraifft, y gallwch ganfod diffyg cynrychiolaeth o ran iaith, ardal ddaearyddol, oed neu rywedd wrth gymharu'ch tîm gwirfoddolwyr â'r cleientiaid rydych yn ceisio eu 'paru' â nhw neu eu hadlewyrchu.



FFURFLEN MONITRO CYFLEOEDD CYFARTAL - CYFRINACHOL

Mae Barnardo's wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal ac mae'n monitro effeithiolrwydd y polisi yn gyson. Hoffem i chi lenwi'r ffurflen hon er mwyn ein helpu i ddeall pwy ydyn ni'n ei gyrraedd. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i lunio proffil cyffredinol o'n sylfaen gwirfoddoli, ac yn ein helpu i wneud yn siŵr bod Barnardo's yn croesawu gwirfoddolwyr o bob carfan o gymdeithas, a bydd yn golygu y byddwn yn gallu rhoi gwell cymorth i rai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf diymgeledd yn y DU.

Llenwch bob adran drwy roi tic yn y blychau perthnasol isod.

Enw: Enw'r Prosiect/Adran/Siop:

Y Rôl y Gwneir Cais Amdani: Dyddiad Geni:

Sut byddech chi'n disgrifio eich tarddiad ethnig? (yn ôl diffiniad cyfrifiad 2011)

Os **Asiaidd**, dewiswch o blith yr isod:

- Bangladeshaidd Indiaidd Pacistanaidd
 Tsieineaidd Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Os **Du**, dewiswch o blith yr isod:

- Affricanaidd Caribïaidd Unrhyw gefndir Du arall

Os **grŵp ethnig Cymysg/Lluosog** dewiswch o blith yr isod:

- Gwyn ac Asiaidd Gwyn a Du Affricanaidd Gwyn a Du Caribïaidd
 Unrhyw gefndir cymysg/lluosog arall

Os **Gwyn**

- Prydeinig Saesneg Albanaidd
 Cymraeg Gwyddelig Gogledd Iwerddon Gwyddelig
 Sipsi neu Deithiwr Unrhyw gefndir gwyn arall

Os **grŵp ethnig arall** dewiswch o blith yr isod:

- Arabaidd Unrhyw gefndir Ethnig arall
 Mae'n well gen i beidio â dweud

Rhyw Benyw Gwryw Mae'n well gen i beidio â dweud

**Statws
Priodasol**

Wedi ysgaru

Mewn Partneriaeth
Sifil

Yn briod

Wedi gwahanu

Sengl

Gweddw

Arall

Mae'n well gen i
beidio â dweud

**Crefydd neu
gred**

Bwdhydd

Cristion

Hindŵ

Iddewig

Mwslim

Sikh

Unrhyw grefydd neu
gred arall

Dim un

Mae'n well gen i
beidio â dweud

**Cyfeiriadedd
Rhywiol**

Deurywiol

Dyn hoyw

Menyw hoyw/lesbiad

Heterorywiol/Strêt

Arall

Mae'n well gen i
beidio â dweud

Anabledd, nam, cyflwr iechyd meddyliol neu gorfforol

Fyddech chi'n dweud bod gennych chi anabledd, nam, cyflwr iechyd meddyliol neu gorfforol sy'n effeithio ar eich gwaith a'ch bywyd bob dydd?

Oes

Nac oes

Mae'n well gen i beidio â dweud

Ar gyfer swyddi yng Nghymru yn unig

Ydych chi'n siarad Cymraeg?

Ydw

Nac ydw

Mae'n well gen i beidio â dweud

Ar gyfer swyddi yng Ngogledd Iwerddon yn unig

Nodwch i ba gymuned ydych chi'n perthyn drwy roi tic yn y blwch priodol isod.

Aelod o'r gymuned Brotestannaidd

Aelod o'r gymuned Gatholig

Nid wyf yn aelod o'r gymuned
Brotestannaidd na'r gymuned Gatholig

Mae'n well gen i beidio â dweud

Diolch i chi am roi'r wybodaeth hon

Gwybodaeth Bellach

[Taflen wybodaeth 4.6 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn gwirfoddoli](#)

[Best practice guidance on monitoring equality and diversity in employment](#)

Cynhyrchwyd yr arweiniad hwn gan y Gwasanaeth Sifil yn 2012, ac er ei fod wedi'i ysgrifennu gyda chyflogeion nid gwirfoddolwyr mewn golwg, mae'n cynnwys manylion defnyddiol ynglŷn â chwestiynau a chategorïau y gellid eu defnyddio

[Monitoring Diversity and Equality of Opportunity in Volunteering](#)

A gynhyrchwyd gan Volunteer Now (Gogledd Iwerddon) yn 2010

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 14/09/2016



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk